

CODI A MYND

canllawiau ar gadw'n
sad ar eich traed



Cyhoeddir gan:



Mewn cysylltiad â



CHARTERED SOCIETY
OF PHYSIOTHERAPY
CYMDEITHAS SIARTREDIG
FFISIOTHERAPI



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Cynnwys

- 3 ○ Cyflwyniad
- 4 ● Ydw i mewn risg o gael codwn
- 6 ● Sut i ostwng eich risg
- 10 ○ Diogelu eich cartref rhag codymau
- 12 ○ Cadw'n ddiogel pan fyddwch allan
- 14 ● Cadw i symud am fywyd cytbwys
- 16 ● Chwech ymarfer ar gyfer nerth a chydbwysedd
- 18 ● Peidiwch byth â chamu ar groen banana!
- 20 ● Codi ar ôl cael codwm
- 22 ● Os cewch godwm ac yn methu codi
- 24 ● Helpu i atal pobl eraill rhag cael codwm
- 26 ● Sut i helpu os cafodd rhywun godwm
- 28 ○ Crynodeb: negeseuon allweddol
- 30 ○ Cysylltiadau defnyddiol



Profwch eich hun!

Ydych chi'n amau eich bod yn arafu? Gwnewch y prawf Get Up and Go wedi'i amseru ar-lein i weld os gallech fod yn fwy cadarn ar eich coesau.

Ewch i www.csp.org.uk/timedupandgo i gael mwy o wybodaeth

Croeso

PEIDIWCH Â SYRTHIO AMDANO! Mae'n amser mynd i'r afael â rhai o'r mythau am syrthio

Dim ond pobl fregus neu eiddil sy'n syrthio ynte?

Dim o gwbl. Bydd un mewn tri o bobl dros 65 – llawer ohonynt mewn iechyd da – yn cael codwm eleni. Fodd bynnag mae'n wir bod ein risg o syrthio yn cynyddu wrth i ni heneiddio; bydd hanner pawb dros 80 oed yn syrthio o leiaf unwaith y flwyddyn.

Ond ydi o ddim yn rhan anochel o fynd yn hŷn?

Dim o reidrwydd. Mae arbenigwyr yn credu y gellid atal y mwyaf helaeth o godymau gyda rhai newidiadau gweddol fach i'n ffordd o fyw a'n cartrefi. A siarad yn feddygol, fodd bynnag, mae

Rhannwch hyn gyda
ffrindiau. Lawrlwythwch
gopi ar-lein o'n gwefan
yn saga.co.uk/falls



codymau yn aml yn rhybudd nad yw rhywbeth yn holol iawn – ond yn aml mae'n rhywbeth y gellir ei drin.

Sut y byddaf yn gwybod fy risg?

Ewch drwy ein rhestr wirio ar y dudalen nesaf: gallech gael eich synnu faint o flychau rydych yn eu ticio.

Yna cymerwch ychydig funudau i ddarllen y llyfrym yma. Gyda chodynau'n dwyn eu hiechyd a'u hannibyniaeth oddi ar lawer o bobl hŷn – a chostio £2.3 biliwn y flwyddyn i ni gyd – efallai mai dyma'r amser mwyaf gwerthfawr a dreuliwch heddiw!

Ydw i mewn risg o gael codwm?

4

Mae pawb mewn mwy o risg o gael codwm wrth iddyn nhw heneiddio; mae'n achos mawr o bobl yn gorfol mynd i'r ysbyty a gall arwain at anafiadau difrifol a chymhlethdodau hirdymor. Gall syrthio hefyd gyfrannu at golli hyder ac annibyniaeth



Mae'n amlwg na allwn newid ein hoedran biolegol ond drwy ddeall beth sy'n ein rhoi mewn risg, galwn gymryd camau atal.

Os ydych wedi syrthio o'r blaen, rydych ar ben y rhestr risg am un arall, felly mae'n bwysicach byth eich bod yn cymryd y camau a amlinellir yn y llyfrynn yma.

Felly edrychwch ar y rhestr wirio gyferbyn a gweld faint ydych yn eu ticio. Yna darllenwch y tudalennau dilynlol i ganfod pam fod ein risg o syrthio yn cynyddu wrth i ni heneiddio – a'r llu o gamau cadarnhaol a rhwydd y gallwn eu cymryd i ostwng y risg hwnnw a diogelu ein rhyddid, p'un ai ydym yn 65 neu 95!



Darllenwch ein cynghorion ar atal codymau yn saga.co.uk/falls

Rhestr wirio

- Rydw i wedi cael codwm ond heb weld neb amdano y dydd ar gyfer menywod; 2 litr/3.5 peint ar gyfer dynion)
- Nid yw fy meddyg teulu wedi adolygu fy meddyginaeth yn y flwyddyn ddiwethaf Mae fy sliperi wedi gweld dyddiau gwell
- Rydw i'n gorfod codi'n aml yn y nos i fynd i'r toiled Mae gofalu am fy nhraed yn eithaf anodd y dyddiau yma
- Mae'n debyg nad ydw i mor egniol ag mae meddygon yn argymhell (30 munud o weithgaredd cymedrol bum gwaith yr wythnos) Mae gen i gyflwr hirdymor fel clefyd Parkinson, clefyd y galon/strôc, arthritis, COPD, diabetes, dementia
- Rydw i'n arbed trydan drwy droi golau i ffwrdd os nad oes eu hangen
- Rydw i weithiau'n teimlo'n chwil neu'n benysgafn pan fyddaf yn sefyll neu'n cerdded Mae'n debyg fy mod yn yfed mwy o alcohol nag mae meddygon yn ei argymhell (14 uned yr wythnos)
- Rydw i'n ei chael yn anodd edrych ar ôl fy nghartref Dydw i ddim yn mynd allan gymaint ag yr hoffwn oherwydd mod i'n poeni am faglu, dydw i ddim yn teimlo'n sad ar fy nhraed
- Mae gen i sbectol bi-ffocal neu vari-ffocal Pe byddwn i'n cael codwm, mae'n debyg y byddwn yn teimlo gormod o embaras i ddweud wrth neb
- Dydw i ddim wedi cael prawf llygaid yn y 12 mis diwethaf Mae fy nhraed yn aml yn dal mewn pethau a allai fy maglu; mae fy anifeiliaid anwes neu wyrion yn rhedeg o amgylch yn fy mhoeni weithiau; maen nhw'n gwneud i mi deimlo'n sigledig!
- Rydw i weithiau'n teimlo'n wan pan fyddaf yn codi o gadair neu'r gwely Mae tipyn o lanastr ac annibendod wedi casglu yn fy nghartref dros y blynnyddoedd
- Mae'n debyg nad ydw i'n yfed digon o hylif (1.6 litr/3 peint) Dydw i ddim bob amser mor gynnes â hynny yn fy nghartref.

Sut i ostwng eich risg

6

Mae edrych ar ffotograffau a dynnwyd 30 mlynedd yn ôl yn dangos sut mae ein cyrff wedi newid ar y tu allan – a rhaid cyfaddef nad yw hynny'n wers bleserus bob amser! Ond beth am y newidiadau ar y tu mewn? Ni allwn eu gweld ond gallant olygu ein bod mewn mwy o risg o syrthio

Ni allwn atal y broses heneiddio ond gallwn wrthweithio rhai o'r effeithiau gydag un neu ddau o fân newidiadau i'n ffordd o fyw.

Mae codymau blaenorol (gyda neu heb anafu) yn un o'r ffactorau risg annibynnol mwyaf mewn syrthio eto; mae canllawiau'n argymhell y dylech gael adolygiad os cewch godwm os na chafodd hyn ei wneud yn awtomatig.

Soniwch am hynny wrth eich meddyg teulu neu ffisiotherapydd yn eich apwyntiad arferol nesaf. Os nad ydych yn gweld rhywun yn rheolaidd, gwnewch apwyntiad penodol i weld rhywun i'w drafod.



Cydbwysedd

Rydym yn dibynnu ar ein cydbwysedd i aros yn syth pan fyddwn yn gor-ymestyn am rhywbeth neu'n baglu. Ond wrth i ni heneiddio, mae amser ymateb ein cydbwysedd ac adweithio yn arafu. Mae hynny'n ei gwneud yn anos i adennill cydbwysedd, yn arbennig pan wrthwneud rhywbeth yn gyflym.

Beth allaf i ei

wneud ?

Mae'n rhymedol o syml i wella eich cydbwysedd: edrychwrh ar y tudalennau canol (16-17) am rai ymarferion rheolaidd syml (dim angen Lycra!)



Cryfder cyhyrau a chymalau

Rhwng 50 a 70 oed rydym yn colli tua 30% o nerth ein cyhyrau, ac nid yw hynny'n newyddion da os ydym yn ceisio adennill ein cydbwysedd neu rwystro codwm.

Beth allaf i ei wneud ?

Mae gweithgaredd corfforol rheolaidd yn cryfhau cyhyrau, faint bynnag eich oed. Y lefel gweithgaredd a argymhellir yw 30 munud, bum gwaith yr wythnos: mae garddio, gwaith tŷ egniol, seiclo a mynd am dro bob dydd

i gyd yn cyfrif. Mae arbenigwyr hefyd yn cynghori ymarferion cryfhau cyhyrau ddwywaith yr wythnos i bobl dros 65 oed.

Esgyrn

Mae esgyrn yn naturiol yn dod yn fwy brau wrth i ni heneiddio, sy'n gwneud torri asgwrn yn fwy tebygol os ydym yn syrthio. Mae hyn yn wir ar gyfer dynion a menywod, ond yn arbennig o wir ar gyfer menywod yn dilyn y menopause.

Beth allaf i ei wneud ?

Mae gweithgareddau cario pwysau hefyd yn wych ar gyfer cynnal esgyrn cryf, a bydd diet iach a chytbwys yn helpu i sicrhau eich bod yn cael digon o galsiwm i gynnal nerth esgyrn. Gallwch gael Fitamin D, sy'n helpu'r corff i amsugno calsiwm, o olau'r haul ac o rai bwydydd. Mae rhai grwpiau o'r boblogaeth mewn risg o beidio cael digon o fitamin D. Mae'r Llywodraeth yn argymhell fod pobl 65 oed a throsodd, y rhai nad ydynt yn gweld llawer o haul a rhai gyda chroen twyllach, oll yn cymryd atodiad fitamin D (10 microgram) bob dydd. Ni ddylech fod allan yn yr haul heb sgrin haul am fwy na 10 munud y dydd ar y breichiau a'r wyneb rhwng mis Mai a mis Medi ond DIM llosgi!

Rhuthro i'r toiled

Os ydych ar frys, yn arbennig yn y twyllwch yn y nos, gall wneud codymau'n fwy tebygol. Ac mae 3-6 miliwn o bobl dros 60 oed ym Mhrydain â phroblemau anymataliaeth iwrin.

Beth allaf i ei wneud ?

Gall anymataliaeth gael ei wella ac weithiau ei iachau – siaradwch gyda'ch nyrs ymataliaeth neu'ch ffisiotherapydd. Gallwch hefyd atgyfeirio eich hun i glinig ymataliaeth lleol a all argymhell ymarferion a rhoi cyngor. Gall rhai meddyginaethau ymataliaeth hefyd eich gwneud yn benysgafn – gadewch iddynt wybod.
csp.org.uk/conditions/incontinence

Meddyginaethau lluosog

Yr hynaf yr ydym, y mwyaf tebygol yr ydym o gael presgripsiwn am feddyginaeth am nifer o wahanol gyflyrau meddygol; amcangyfrifir fod 36% o bobl dros 75 yn cymryd pedwar neu fwy o gyffuriau gwahanol. Mae rhai cyffuriau cyffredin yn gysylltiedig gyda phenysegfnder, gostwng pwysedd gwael pan safwch, neu fod yn gysglyd – ac mae'r cyfan yn gallu codi'r risg o syrthio.



"Dim ond pan ddechreuodd meddyg teulu newydd yn y feddygfa y cefais adolygiad o fy holl feddyginaeth, ac fe wnaeth ostwng rhai o'r dosau. Rydw i'n teimlo'n llawer gwell a dim yn benysgafn pan fyddaf yn sefyll"

Siaradwch gyda'ch meddyg teulu os ydych yn profi unrhyw rai o'r problemau yma a gofyn os y dylai'ch meddyginaeth gael ei newid.

Beth allaf i ei wneud ?

Peidiwch byth â rhoi'r gorau i gymryd unrhyw feddyginaeth ar bresgripsiwn yn sydyn. Os ydych yn amau fod un neu fwy o'ch meddyginaethau yn eich gwneud yn benysgafn neu'n wan, ewch i weld eich meddyg teulu – a gwneud yn siŵr fod eich meddyg teulu yn adolygu eich presgripsiynau bob 12 mis (bob chwe mis os ydych dros 75 neu'n cymryd pedwar neu fwy o feddyginaethau). Cadwch olwg ar faint o alcohol a yfwch: efallai y gwelwch na allwch yfed yr un faint ag yr arferech



A yw'n amser am brawf llygaid? Edrychwch ar saga.co.uk/falls

heb deimlo'n benysgafn neu'n wael, a gall ryngweithio gyda meddyginaeth presgripsiwn.

Newidiadau i'r golwg

Nid dim ond 'golwg hir yr henoed' a all achosi problemau gyda'r golwg. Gall heneiddio ostwng sensitifrwydd gwrthgyferbyniad (ei gwneud yn galetach gweld ymyl stepiau a cherbiau), newid canfyddiad dyfnder ac achosi amhariad yn y maes gweld – y cyfan ohonynt yn eich gwneud yn fwy tebygol o gael codwm.

Beth allaf i ei wneud ?

Cael archwiliad golwg blynnyddol, hyd yn oed os credwch eich bod yn iawn (mae am ddim i bobl dros 60) gan fod yr optegydd hefyd yn gwirio am glaucoma, cataractau, dirywiad macwlaidd a retinopatheg diabetig.

Peidiwch â dibynnu ar sbectol ddarllen o'r archfarchnad



yn yr hirdymor: anaml y mae'r ddwy lygad angen cywiriad yn union yr un fath.

Alcohol

Wrth i ni heneiddio, mae yfed yr un faint yn arwain at grynhoad uwch o alcohol yn y gwaed. Mae hyn oherwydd bod braster yn cymryd lle cyhyrau wrth i ni heneiddio, ac ni chaiff alcohol ei dynnu fewn i fraster corff gystal ag a wnaiff i gyhyrau.

Mae pobl hŷn hefyd yn fwy tebygol o ddod yn anwastad ar eu traed ar ôl yfed alcohol, ac felly'n fwy agored i gael codwm.

Mae risg ansadrwydd ar ôl yfed alcohol yn cynyddu gydag oedran



Diogelu eich cartref rhag codymau

10

Mae chwech allan o bob deg codwm yn digwydd yn y cartref neu'r ardd. Nid yw hyn yn syndod, gan fod cartrefi'n heneiddio hefyd: mae carpedi yn treulio, llanastr ac annibendod yn crynhoi ac efallai nad ydym yn gofalu am ein cartref gystal ag oeddem unwaith

Yn aml nid ydym yn sylwi ar broblemau oherwydd ein bod wedi byw gyda nhw mor hir. Ond gall llanastr ac annibendod achosi risg real iawn ar gyfer codymau. Felly neilltuwch ychydig funudau i edrych o amgylch eich cartref gyda llygad beirniadol, gan ddefnyddio'r rhestr wirio islaw.

Goleuadau

- Wyddech chi fod llygaid 60 oed angen tair gwaith mwy o olau na llygaid 20 oed? Holwch drydanwr proffesiynol yr ydych yn ymddiried ynddo am opsiynau goleuo – pethau fel goleuadau cangen yn lle bylbiau sengl – i gynyddu golau heb lewych.
- Osgowch geblau'n llusgo o lampau a allai wneud i chi faglu.

- Ystyriwch osod switshis dwy ffordd ar y landing/cyntedd a/neu oleuadau ychwanegol ar y grisiau. Gosodwch larwm mwg yr un pryd – un perygl arall wedi'i ddatrys!
- Defnyddiwch lamp wrth erchwyn y gwely bob tro rydych yn codi yn y nos; os nad yw'n rhwydd cyrraedd y switsh, cadwch fflachlamp dda wrth ymyl y gwely.
- Peidiwch byth â cherdded o amgylch yn y tywyllwch; os ydych yn codi'n gyson i fynd i'r toiled, gadwch y golau ymlaen ar y landing.

Ardaloedd byw

- Gwiriwch fod is-garped dim llithro dan bob mat a chael matiau



Darllenwch sut i dacluso eich cartref yn saga.co.uk/magazine

“Roeddwn i bob amser yn casáu'r syniad o ganllawiau a matian dim-llithro ym mhob man - roedd yn arwydd eich bod yn heneiddio. Ond mae gwneud ychydig o newidiadau bach adref wedi rhoi mwya o ryddid a hyder i mi, nid llai”

newydd os yw'r hen rai wedi treulio, neu ofyn i rywun eu tacio i lawr.

- Bydd teclynnau tacluso ceblau a/neu flychau yn cadw trefn ar wifrau wrth ymyl teledu, cyfrifiadur neu ganolfan gerddoriaeth. Tapiwch wifrau ymestyn sy'n llusgo at fyrrdau sgyrtin.
- Cliriwch lanastr ac annibendod, yn arbennig yn y cyntedd/ landing a drysau.
- Peidiwch byth â chadw eitemau ar y grisiau!
- Mae'n syndod faint o bobl sy'n baglu dros eu hanifeiliaid anwes. Prynwch goler liwgar a chloch iddynt fel eich bod yn gwybod os ydynt o gwmpas.

Ceginau/ystafelloedd ymolchi

- Ydych chi'n ymestyn i gyrraedd pethau drwy'r amser? Aildrefnwch

gypyrrdau fel bod yr eitemau gaiff eu defnyddio'n aml yn rhwydd eu cyrraedd.

- Os ydych yn tywallt rhywbeth, sychwch ef yn syth.
- Defnyddiwch fat dim-llithro yn y bath/gawod bob amser.
- Ystyriwch roi canllawiau bach yn yr ystafell ymolchi.

Yr ardd

- Cadwch lwybrau'n rhydd o fwsogl a dail. Trwsiwch unrhyw gerrig sydd wedi cracio.
- Gwnewch yn siw'r fod goleuadau da ar ddrysau cefn/blaen a'r garej.
- Ystyriwch osod rheiliau diogelwch ar eich stepiau.

Cyngor da

Gallwch ofyn am asesiad peryglon cartref i chi neu rywun sy'n poeni amdanoch. Gofynnwch i'ch meddyg teulu beth sydd ar gael yn lleol, fel arfer gan eich Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol, cyngor lleol neu Wasanaeth Tân ac Achub.

Cadw'n ddiogel pan fyddwch allan

12

Nid oes unrhyw reswm drwy gyfyngu ar eich gweithgareddau tu allan i'ch cartref oherwydd eich bod yn poeni am syrthio, ond mae'n gwneud synnwyr i gymryd rhai mesurau rhagofalu sym

Yn y stryd

- Cymerwch eich amser a pheiddio rhuthro. Edrychwrch ar ardal am beryglon baglu – palmentydd wedi cracio, rhwystrau ac wynebau anwastad – cyn cerdded.
- Gall cario bagio siopa eich rhwystro rhag gweld y palmant; ystyriwrch ddefnyddio sach gefn yn lle (mae hefyd yn well ar gyfer eich cefn).
- Cadwch olwg am ddrysau siopau gyda fframiau drws sy'n ymwrthio allan, yn arbennig os ydych yn camu mewn i le tywyllach; rhowch amser i'ch llygaid addasu.
- Cadwch olwg am newidiadau cynnil mewn graddiant, yn arbennig yn agos at groesiadau cerddwyr.
- Cadwch eich tocyn bws/arian yn agos fel nad yw'n rhaid i chi chwiliota o amgylch eich bag. Y ffordd honno bydd gennych well cyfle o fynd yn ddiogel ar y bws/trên.
- Peidiwch ag ofni gofyn i yrrwr y bws aros nes eich bod wedi eistedd cyn iddynt symud.
- Peidiwch â phoeni os ydych yn credu eich bod yn araf ac yn anghyfleus i eraill. Mwy na thebyg nad oes neb wedi sylwi beth bynnag.



Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar iechyd a llesiant yn saga.co.uk/falls

Cymorth cerdded

“Doeddwn i ddilim mewn gwirionedd yn hoffi'r syniad o ddefnyddio ffon i gerdded, felly fe brynnodd fy mab bolyn mynydda safon uchel i fi ac rydyn ni wedi'i addasu i fod yr hyd cywir. Ychydig o jôc oedd ar y dechrau ond fyddwn i ddilim yn bod hebddo nawr.”

Peidiwch â theimlo embaras am ddefnyddio cymorth cerdded os yw'n helpu i aros yn sad ar eich traed. Mae'n bwysig fod ffon o'r hyd cywir: yn wastad gyda phlyg eich arddwrn pan fydd eich braich i lawr wrth eich ochr. Dylai hefyd fod â phen rwber ('ferrule') i'w rwystro rhag llithro; os yw wedi treulio, rhowch un newydd yn ei le yn syth. Os nad yw ffon yn ddigon erbyn hyn, siaradwch gyda'ch ffisiotherapydd am gael ffrâm gerdded neu rolator (ffrâm ar olwynion).



Mae sachau
cefn yn wych
am gario siopa


Cadw ati i symud i gael bywyd cytbwys

14

Rydym wedi gweld sut mae heneiddio yn amharu ar gydbwysedd, cyhyrau a chymalau. Ac mae hyn yn cael ei waethygu os treuliwn gyfnodau hir yn eistedd i lawr

Po fwyaf egniol y gallwch fod – a pho fwyaf yr ydych yn rhannu eich diwrnod fel nad ydych yn eistedd

am gyfnodau estynedig – y mwyaf y gallwch osgoi effeithiau heneiddio.



Darllenwch am sylfeini a manteision t'ai chi yn saga.co.uk/falls

Beth allaf i ei wneud ?

Pan fyddwch yn edrych ar y teledu, rholiwch eich ysgwyddau'n rheolaidd a chodi a cherdded o amgylch adeg egwyl hysbysiadau

Mae'r gweithgareddau yma i gyd yn wych ar gyfer cynnal cydbwysedd a symudedd:

- ✓ Garddio
- ✓ Gwaith tŷ
- ✓ Cerdded yn hytrach na gyrru i'r siopau/dal y bws
- ✓ Dosbarthiadau ffitrwydd cryfau a chydbwysedd
- ✓ Yoga. Dyw hi byth yn rhy hwyr i ddysgu.
- ✓ T'ai chi. Mae'r symudiadau araf ac esmwyth yn gwella cydbwysedd mewn oedolion hŷn.
- ✓ Pan fyddwch yn eistedd, cadwch eich cefn mor syth ag sydd modd er mwyn osgoi datblygu crwm – gelyn cydbwysedd da.



Peidiwch bod ofn

Mae rhai pobl yn poeni cymaint am godymau fel eu bod yn cyfyngu eu symudiadau ac yn treulio cyfnodau hir yn eistedd i lawr. Mae hyn yn peri niwed i gydbwysedd, nerth y corff a'r gallu i symud, sydd yn ei dro yn gwneud codwm hyd yn oed yn fwy tebygol. Mae'n gylch dieflig ac yn niweidio hyder ac annibyniaeth.

Os yw hyn yn wir amdanoch chi, gosodwch dargedau bach a graddol i'ch hunan gan ddefnyddio'r camau yn y llyfrym yma. Gofynnwch i ffrindiau/perthnasau helpu, aros yn gadarnhaol a defnyddio ymarferion ymlacio ar gyfer adegau pryderus.

Siaradwch gyda ffisiotherapydd i gael cyngor, neu gysylltu â'ch gwasanaeth codymau lleol; bydd eu manylion cyswllt gan eich meddyg teulu.

6

ymarfer ar gyfer nerth a chyd bwysedd

16

Rhowch gynnig ar y chwe ymarfer syml hyn ddwy neu dair gwaith yr wythnos-bob dydd os hoffwch – a dylech sylwi ar welliannau yn eich cyd symud a'ch cydbwysedd mewn dim o dro



- DEFNYDDIWCH GADAIR GRYF.
- GWISGWCH ESGIDIAU CADARN
- OS CEWCH BOEN YN EICH BREST, PENYSGAFNDER NEU'N DDIFRIFOL BRIN O ANADL, STOPIWCH A FFONIWCH EICH MEDDYG TEULU NEU 111
- MAE'N EITHAF ARFEROL TEIMLO YCHYDIG BACH O BOEN Y DIWRNOD WEDYN

1



2



Codi Sawdl

Safwch yn syth, gan gydio yng nghefn cadair cegin grfyf neu sinc y gegin, yna godi eich sodlau oddi ar y llawr, gan roi'r pwysau ar fodiau eich traed. Daliwch am dair eiliad, yna ostwng a rheoli. Ailadroddwch 10 gwaith.

Codi Bysedd eich Traed

Safwch yn syth gan gydio yng nghefn cadair neu sinc y gegin fel o'r blaen, yna codwch fysedd eich traed – gan roi'r pwysau ar eich sodlau. Peidiwch â rhoi eich pen ôl allan. Daliwch am dair eiliad, yna ostwng a rheoli. Ailadroddwch 10 gwaith.




Saga

Mae llawer o wybodaeth am iechyd yn saga.co.uk/falls

3




4



Eistedd i Sefyll

Eisteddwch yn syth ar ymyl cadair gyda'ch traed ychydig yn ôl. Pwyswch ychydig ymlaen a sefyll (gyda'ch dwylo ar y gadair os oes angen). Camwch yn ôl nes bod eich coesau'n cyffwrdd â'r gadair yna gostyngwch eich hunan yn araf i'r gadair. Ailadroddwch 10 gwaith.

5



Cerdded Sawdl - Bysedd Traed

Safwch yn syth, gydag un llaw ar rywbeth fel cwpwrdd cegin i'ch cefnogi. Edrychwch yn syth ymlaen a cherdded 10 cam ymlaen, gan roi un droed yn syth o flaen y llall fel bod y traed yn ffurfio llinell syth. Anelwch am symudiad cerdded cyson. Symudwch eich traed yn ôl i fod led clun ar wahân, troi o amgylch ac ailadrodd y camau yn y cyfeiriad arall.

Sefyll Sawdl-Bysedd Traed

Safwch yn syth gydag un llaw ar y gadair. Rhowch un droed yn syth o flaen y llall i wneud llinell syth. Edrychwch yn syth ymlaen, tynnu eich llaw oddi ar y gadair a chydbwys am 10 eiliad. Symudwch y droed flaen yn ôl i led clun ar wahân. Yna rhowch y droed arall ymlaen a chydbwys am 10 eiliad.

6



Sefyll ar Un Goes

Safwch yn agos at y gadair a'i dal gydag un llaw. Cydbwyswch ar un goes, gan gadw'r pen-glin cefnogi yn feddal a sefyll yn syth. Arhoswch yn yr unfan am 10 eiliad. Ailadroddwch ar y goes arall.



BETH AM DYNNU'R TUDALENNAU
CANOL HYN ALLAN A'U CADW AR
YR OERGELL?

Peidiwch byth â chamu ar groen banana! (a ffyrdd eraill i osgoi llithro a baglu)

18

Dim ond cymeriadau cartwîn sy'n llithro ar groen banana – mae'r risg honno braidd yn amlwg i'r gweddill ohonom. Ond faint o risgiau llithro a baglu cyffredin eraill ydyn ni'n eu hanwybyddu?



Dyma'n pump uchaf:

- 1 Esgidiau sy'n ffitio'n wael.** Mae ein traed yn newid siâp wrth i ni heneiddio ac yn colli peth teimlad a hyblygrwydd, felly mae esgidiau sy'n ffitio'n dda'n hanfodol; efallai nad yw'r hyn oedd yn ffitio 10 mlynedd yn ôl yn iawn erbyn hyn. Edrychwrch ar y canllawiau prynu gyferbyn
- 2 Dillad yn llusgo.** Clymwch feltiau neu gordiau ar ddillad a gynnau gwisgo – neu eu tynnu i ffwrdd. Rhowch hem ar drowsus sy'n rhy llaes.
- 3 Llusgo'ch traed.** Mae'n rhwydd mynd i'r arfer o beidio codi eich traed mor uchel ag yr arferech wrth gerdded ond mae'n cynyddu eich cyfle o faglu. Bydd yr ymarferion ar dudalennau 16-17 yn helpu.
- 4 Sliperi wedi treulio.** Efallai y byddant fel hen ffrindiau ond mae'n amser ffarwelio gyda'ch sliperi os oes ganddynt dyllau yn eu gwadhwau, topiau wedi treulio, cefnau wedi torri neu'r llac. Dylai sliperi gau, aros ar eich troed a rhoi gafael.
- 5 Cerdded mewn sanau/teits ar loriau caled.** Peidiwch byth, byth gwneud hynny (gwisgwch y sliperi newydd yn lle!)

Sut i ddewis esgidiau

Dylai gwadnau fod yn ddigon tenau i chi deimlo a 'darllen' y ddaear dan eich traed, ond bod â digon o glustog ynddynt ar gyfer amsugno sioc, yn ogystal â gwadn ar gyfer rhoi gafael.

Dylai esgidiau fod yn isel ac yn llydan ar gyfer bod mor sad ag sydd modd. Dewiswch arddull gyda blaen crwn neu sgwâr i roi mwy o le i fysedd eich traed – a digon o ddyfnder fel y gallwch symud bysedd eich traed tu mewn.

Dylai esgidiau fod yn ddigon hir fel nad yw bysedd eich traed yn cyffwrdd y pen draw a dylent roi cefnogaeth o amgylch rhan ganolog eich troed.

Ewch am esgidiau sy'n cau fel rhai gyda charrai i roi cefnogaeth. Osgowch esgidiau balet a fflip-fflops!

Cyngor da

Peidiwch â phrynu esgidiau yn y bore – efallai y byddant yn teimlo'n dyn yn y prynhawn pan fydd eich traed wedi chwyddo ychydig.



"Dim ond 65 oed ydw i felly go brin mod i'n ystyried fy hunan yn hen, ond fe gefais godwm ar ôl baglu dros garreg wedi cracio ar balmant rwyf wedi cerdded arno bob dydd ers blynnyddoedd. Rwy'n meddwl mod i wedi mynd i'r arfer o beidio canolbwytio na chodi fy nhraed yn iawn"

19

Cymryd gofal o'ch traed

Ewch i weld eich meddyg teulu os oes gennych draed poenus, wedi chwyddo neu'n nodwyddau bach sy'n amharu ar eich gallu i symud; mae'n bosibl y gellir gwneud rhywbeth i helpu.



Torrwch fysedd eich traed yn rheolaidd (syth ar draws yn unig) a rhoi digon o hylif yn lle bod eich traed yn cracio'n boenus.

Defnyddiwr garreg piwmis ar groen caled. Os yw gofal traed yn dod yn anodd, ewch i weld ceiropodydd.

Codi ar ôl cael codwm

20

Os cewch godwm, arhoswch yn llonydd am funud gan aros yn bwyllog ac edrych os ydych wedi anafu. Os nad ydych wedi anafu ac yn credu y gallwch godi, dilynwch y camau gyferbyn (gan orffwys rhwng pob un os oes angen i chi). Os gwyddoch na allwch godi, neu os ydych yn teimlo poen yn eich clun neu gefn os symudwch, darllenwch y tudalennau nesaf am ffyrdd i alw help



Dysgwch sut i ddiogelu eich cartref rhag codwm yn saga.co.uk/falls

1



Rholiwch ar eich ochr ac yna wthio eich hunan ar ein penelinau.

2



Defnyddiwch eich breichiau i wthio eich hunan ar eich dwylo a'ch pengliniau.

3



Cropiwrch at ddarn cadarn iawn o ddodrefn (cadair gref neu wely) a chyddio yn ddi i gael cefnogaeth

Cyngor da

Os na allwch fynd ar eich pedwar, cerddwch ar eich pen ôl neu rolio i wyneb isel fel gris isaf neu sofa. Eisteddwch gyda'ch cefn ato, rhoi eich breichiau tu ôl i chi ar yr wyneb a gwthio i fyny gyda'ch dwylo a'ch traed, gan godi eich pen ôl ar y wyneb. Os ydych yn defnyddio'r grisiau, ewch i'r gris nesaf cyn sefyll i fyny.



"Fe wnes i lithro yn fy nghegin ac ni allwn sefyll. Wedyn awgrymodd fy merch fy mod yn ymarfer pan oedd hi yno i helpu. Roeddwn yn teimlo'n wirion yn cropian o amgylch y tŷ, ond nawr rwy'n teimlo'n llawer mwya hyderus am godi ar fy mhen fy hun"

4



Llithrwch neu godi troed eich coes gryfaf ymlaen fel ei bod yn wastad ar y llawr

5



Plygwch ymlaen a gwthio i fyny yn defnyddio eich breichiau a'ch coes flaen, gan godi'n araf ar eich traed.

6



Trowch o amgylch ac eistedd i lawr. Eisteddwch am fundud neu ddu i orffwys.

Os cewch godwm ac yn methu codi

22

Dilynwch y camau hyn – a byddant yn llawer haws os ydych eisoes wedi gwneud ychydig o gynllunio ymlaen llaw

I gael help

- Defnyddiwch eich larwm cadwen os oes gennych un neu ffonio cymdogion ar eich ffôn – rhowch eu rhif ar gof eich ffôn yn awr.
- Defnyddiwch eich ffôn i alw 999.
- Tarwch y wal, rheiddiadur neu lawr.
- Cadwch yn gynnes. Gorchuddiwch eich hun gydag unrhyw beth y gallwch ei ganfod – lliain bwrdd, blanced, mat neu gôt.
- Rhowch glustog dan eich pen neu rolio eitem o ddillad.
- Daliwch i symud. Rholiwch o ochr i ochr a symud eich breichiau a'ch coesau gan fod poen yn eich helpu i'ch cadw'n gynnes a chadw eich cylchrediad.

- Yfwch ddigon, os oes diod o fewn eich cyrraedd.

Blaen-gynllunio

Mae'n gwneud synnwyr i baratoi eich hun a'ch cartref rhag ofn fod y gwaethaf yn digwydd. Yna gallwch ddal ati i fwynhau bywyd, gan wybod eich bod wedi gwneud y gwaith sylfaenol.

- Gnewch yn siw'r eich bod wedi darllen tudalennau 10-11 y canllaw yma a diogelu cymaint ar eich cartref rhag codymau ag sydd modd.
- Rhowch glustogau a blancedi o amgylch y ty^ ar lefel y llawr fel y gadwch gadw'n gynnes a chysurus tra'n aros am help os cawsoch godwm.
- Defnyddiwch eich synnwyr cyffredin ar le i'w rhoi: mae angen



Darllenwch am larwm personol SOS SAGA yn saga.co.uk/sos
neu ffonio 0800 068 5059

iddynt fod yn rhwydd eu cyrraedd ond dylid eu cadw fel nad ydynt yn achosi perygl ynddynt eu hunain!

- Rhowch botel o ddw'r gyda'r clustogau fel y gallwch gael diod pan fyddwch yn aros.
- Os oes gennych ffôn llinell daear heb gordyn, cariwch hi yn eich poced.
- Mynnwch ffôn symudol os nad oes gennych un yn barod a'i chadw (wedi'i thro i ymlaen) yn eich poced neu ar felt. Ar gof eich ffôn, rhowch rifau cymdogion neu ffrindiau/perthnasau sy'n byw yn agos a allai eich helpu os cewch godwm.
- Ystyriwch gael larwm cymunedol.



"Alla i ddim dweud wrthych faint mor ddigalon a thruenus oedd hi i orwedd ar y llawr yn aros dwy awr nes i fy nghymorthydd cartref ddod o hyd i fi. Nawr wrwy'n cario ffôn symudol syml hen steil gyda chi - mae fy wyr yn ei galw yn 'bric Taid' - ac wrwy'n teimlo gymaint mwya diogel"

Gallwch ei wisgo fel cadwen, neu ar eich garddwrn, a phan bwyswch fotwm bydd y ganolfan reoli yn ffonio'r deiliad/deiliaid allwedd a enwyd i ofyn iddynt fynd i'ch cartref.



**Gosodwch
glustogau,
blancedi a dŵr
o amgylch eich
cartref**



Helpu i atal pobl eraill rhag cael codwm

24

Mae pobl mewn risg o godymau yn aml yn amharod i drafod hynny oherwydd yr ofnant y byddant yn colli eu hannibyniaeth. Mae'n fater i ni – eu cyfeillion, perthnasau a chymdogion – i'w darbwyllo mai'r gwrthwyneb sy'n wir: y byddant drwy gymryd camau cadarnhaol i atal codymau yn cadw eu hiechyd a'u hannibyniaeth yn hirach



Defnyddiwch eich sgiliau
darganfod i sylwi ar y ffactorau
risg ar gyfer codymau



Darllenwch sut i hyfforddi eich cyhyrau i hybu cydbwysedd yn saga.co.uk/falls

Byddwch yn sensitif a dangos cydymdeimlad os ydych yn codi'r pwnc. Dechreuwch gyda "Dydych chi ddim yn edrych yn sad iawn ar eich traed, ac mae'n rhaid fod hynny'n niwsans? Rwy'n clywed y gallwch wneud rhywbeth am hynny ..."

Trowch yn ddiectif i ganfod pam y gallant fod yn syrthio neu mewn risg. Gorau po gyntaf y sylwir ar broblemau posibl.

- A yw eu golwg wedi gwaethygú'n sylweddol yn ddiweddgar? Awgrymwch brawf llygaid.
- A ydynt yn benysgafn? Gofynnwch i'r meddyg teulu wirio eu meddyginaeth.
- A ydynt yn llusgo eu traed wrth gerdded? Efallai bod angen iddynt wneud ymarferion hyblygrwydd a nerth fel y gallant godi eu traed yn uwch.
- A ydynt yn cerdded yn araf iawn? Efallai bod ofn syrthio yn eu harafu, neu ydych chi'n gweld fod y person yn mynd yn anghofus neu ddryslyd (sy'n cael ei gysylltu gyda risg uwch o godymau)?

Anogwch nhw i siarad gyda'u meddyg teulu am drin unrhyw broblemau meddygol. Gallent gael eu hatgyfeirio at glinic codymau lleol mewn rhai



"Rydw i'n berson preifat ac mae meddwl am ddosbarthiadau ymarfer yn codi braw arna i. Ond mae'n rhaid i mi gyfaddef fy mod wrth fy modd gyda'r dosbarth cadw'n heini yn ein neuadd eglwys leol. Rwy'n fwya heini ac wedi gwneud ffrindiau mor dda - rydyn ni'n cael llawer o hwyl gyda'n gilydd ac rwy'n teimlo'n fwya cadarnhaol am fywyd yn gyffredinol"

achosion. Gall ffisiotherapydd roi cyngor am ymarferion cryfhau a chydbwysedd.

Rhowch gopi o'r llyfrynn yma iddynt a'u hannog i wneud y camau a argymhellir ynddo. Gofynnwch a fyddent yn hoffi i chi edrych o amgylch eu cartref i weld os gallwch weld unrhyw rwystrau neu risg iau codymau a'u symud. Mae cyngor ar ddiogelu cartref rhag codymau ar gael ar dudalennau 10-11 a 28-29.

Mae'r ymarferion ar dudalennau 16-17 yn neilltuol o ddefnyddiol. Os ydynt yn ymddangos yn ddihwyl neu'n isel, allech chi wneud yr ymarferion gyda nhw? A oes grŵp ymarfer lleol i bobl hŷn y gallent ymuno ag ef? Dengys ymchwil fod gan ymarferion grŵp fanteision corfforol a chymdeithasol enfawr.

Sut i helpu os cafodd rhywun godwm

26

1 Peidiwch â cheisio eu codi'n syth – os nad oedd yn llithriad neu fagliaid cyflym a'ch bod yn gwybod eu bod yn iawn. Byddant angen ychydig o funudau i ddod dros y sioc gyntaf ac i'r corff arwyddo unrhyw anafiadau.

2 Gnewch yn siw'r fod y person mor gysurus ag sydd modd – rhowch glustog (neu gôt wedi'i rholio fyny os tu allan) dan eu pen a chanfod rhywbeth cynnes i'w roi drostyt. Gofynnwch iddynt i anadlu'n araf ac yn dawel.

3 Ffoniwch am help, drwy ddeialu 999 os oes angen.

4 Os credwch nad ydynt wedi anafu ac y gallant sefyll ar eu traed, gwelwch faint y gallant ei wneud ei hunan drwy ddefnyddio'r dechneg ar dudalen 21. Mae hyn yn fwy diogel i chi a hefyd yn arfer da iddynt rhag ofn y byddant yn syrthio eto pan fyddant ar ben eu hunain.

5 Bydd eich gallu i helpu yn dibynnu ar ba mor gryf a pha mor iach ydych chi ac ac ar eu nerth a'u cydbwysedd nhw. Y ffordd fwyaf diogel yw'r dechneg a ddisgrifir ar dudalen 21: byddwch yno i'w llywio, neu gynorthwyo dim ond digon nad yw'n risgio unrhyw anaf i'r naill na'r llall ohonoch chi.

6 Ceisiwch beidio eu codi ond os yw'n rhaid i chi ac nad oes unrhyw help arall o gwmpas – ac os ydych yn ddigon ffit – mae'n well i chi sefyll tu ôl iddynt, plygu eich pengliniau gyda'ch breichiau o amgylch eu canol (nid dan eu breichiau). Cyfrwch i dri gyda'ch gilydd, wedyn safwch ar yr un pryd â'ch gilydd.

7 Pan fyddant yn eistedd ac y gallwch eich dau orffwys, sganiwch nhw eto am anafiadau. Dywedwch wrth eich meddyg teulu am y codwm fel y gallant roi cyngor a chymorth ar ostwng risgiau yn y dyfodol.



Darllenwch sut i hyfforddi eich cyhyrau i hybu cydbwysedd yn saga.co.uk/falls

Ydych chi'n adnabod rhywun sy'n syrthio'n gyson?

Mae cynyrch defnyddiol
a all helpu – gall
ffisiotherapydd neu
therapydd galwedigaethol
mewn clinig codymau roi
cyngor amdanynt.

Gallai goleuadau
a gaiff eu
gweithredu gan
symud fod yn
ychwanegiad
gwych i'ch cartref

Crynodeb: ein negeseuon allweddol i CHI

Nid yw codymau yn rhan anochel o heneiddio. Gall y rhan fwyaf gael eu hatal – heb i chi orfod aros dan do neu gwtogi ar eich gweithgareddau arferol

Mae heneiddio'n effeithio ar gydbwysedd, nerth cyhyrau ac esgyrn – mae'r un peth i bawb. Ond gall pawb ohonom ddiogelu ein hannibyniaeth yn hirach drwy gymryd ychydig o gamau syml.

Mae ychydig o ymarferion rheolaidd a chynyddu gweithgaredd dyddiol yn helpu cydbwysedd a nerth cyhyrau.

Nid yw'n rhaid i ddiogelu eich cartref rhag codwm fod yn gostus; mae'n bennaf am sylwi ar risgiau bach y gellir eu datrys yn rhwydd ac yn gyflym.

Gallai ymarfer sut i godi o'r llawr os cawsoch godwm achub eich bywyd.

Poenwch lai a mwynhau bywyd yn fwy drwy gymryd yr ychydig o fesurau ataliol syml yma!

Rhestr wirio

Gwneud heddiw

- Gwneud apwyntiad gyda'r meddyg teulu i adolygu fy meddyginaeth (os na wnaethpwyd hynny am 12 mis) neu i siarad am fy mhenstandod neu ansadrwydd.
- Gwneud apwyntiad am brawf llygaid.
- Cadw fflachlamp ger y gwely, gadael golau'r landing/ cyntedd ymlaen yn y nos.
- Tynnu/tapiro carped sydd wedi treulio, cael sliperi newydd os yw'r hen rhai wedi treulio a chael gwared â llanast ac annibenod, yn arbennig mewn corridorau, ystafelloedd gwely ac o amgylch drysau.

Gwneud heddiw a phob diwrnod

- Cadw fy ffôn symudol arnaf, wedi ei siarsio a'i throï ymlaen



- Cynyddu fy lefelau ymarfer – a chodi a cherdded/ymestyn bob 20 munud tra'n eistedd apwyntiad os oes angen.
- Tynnu ymarferion t16-17 o'r llyfrynn, eu rhoi ar yr oergell a'u gwneud! Dod o hyd i ddosbarth cyfagos ar nerth neu ta'i chi.
- Anelu i fwyta 2-3 dogn o fwyd cyfoethog mewn calsiwm mewn diwrnod. Gwneud cynllun codymau, gan roi dŵr, clustogau a blancedi mewn lleoedd allweddol.
- Gofyn i fy fferyllydd am atodiadau fitamin D a chael 10 munud yn yr haul rhwng mis Mai a mis Medi. Archebu canllawiau llaw/matiau dim llithro ar gyfer yr ystafell ymolchi.
- Derbyn na allaf yfed cymaint o alcohol ag yr arferwn. Gofyn am asesiad o beryglon cartref. Gofyn am unrhyw help sydd ei angen gyda newidiadau strwythurol i'r tŷ/gardd i wella diogelwch
- Dweud wrth fy meddyg teulu os wyf yn syrthio Meddwl: a yw fy nghartref yn ddigon cynnes? Os na, ymchwiliwch sut y gellid gwella hyn.

Byddaf yn ymchwilio nawr ac yn anelu gorffen y mis hwn

- Cael esgidiau sy'n ffitio'n iawn. Dod o hyd i drydanydd cymwys os oes angen i mi newid goleuadau a hefyd dasgmon lleol sydd ag enw da ar gyfer gwneud mân swyddi fel newid bylbiau a gosod rheiliau ac ati.
- Ail-drefnu cypyrrdau'r gegin i osgoi ymestyn mor aml. Ymchwilio cymhorthion cerdded ac offer defnyddiol arall fel sy'n briodol. (Mae gan Age UK a Cyngor Ar Bopeth help ar wybodaeth ariannol).
- Cael cloch a/neu goler liwgar ar gyfer fy nghath neu fy nighi. Gweld y meddyg teulu am broblemau anymatalrwydd iwrin neu wneud apwyntiad yn y clinig anymatalrwydd.
- Canfod ceiropodydd a threfnu Cael esgidiau sy'n ffitio'n iawn. Archebu canllawiau llaw/matiau dim llithro ar gyfer yr ystafell ymolchi.



**TORRWCHY RHESTR WIRIO
YMA ALLAN A'I CHADW'N
AGOS ATOCH**

Cysylltiadau Defnyddiol

Saga

Gwybodaeth am ddim ar bob math o iechyd a llesiant i bobl dros 50
saga.co.uk/magazine

CSP (Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi)

Gallwch gael eich cyfeirio gan ffisiotherapydd at eich meddyg teulu, eich atgyfeirio eich hunan mewn rhai ardaloedd neu ddod o hyd i ffisiotherapydd preifat lleol yn physio2u.co.uk

Agile

Ffisiotherapyddion yn arbenigo mewn gweithio gyda phobl hy'n agile.csp.org.uk

Age Cymru

Gwybodaeth ar atal codymau, gweithgaredd corfforol a gwasanaethau tasgmon mewn rhai ardaloedd. Ffoniwch yn rhad ac am ddim ar 08000 223 444 neu weld www.agecymru.org.uk

NHS Choices

Mae'r daflen yma ac adnoddau eraill ar gael yn nhs.uk/healthy-bones nhs.uk/conditions/falls

BAOT (Cymdeithas Brydeinig Therapyddion Galwedigaethol)

cot.co.uk/

Later Life Training

Dosbarthiadau ymarfer www.laterlifetraining.co.uk (Cliciwch ar LLT Instructor Locator)

GIG Cymru

nhsdirect.wales.nhs.uk/localservices
Llinell Gymorth: 0845 4647

GIG yr Alban

www.nhsinform.co.uk/falls Llinell Gymorth: 0800 224488

GIG Gogledd Iwerddon

nidirect.gov.uk/keeping-mobile-and-preventing-falls

Cymdeithas Genedlaethol Osteoporosis

nos.org.uk
Llinell Gymorth: 0808 800 0035

Parkinson's UK

parkinsons.org.uk
Llinell Gymorth 0808 800 0303

RNIB

Cyngor ar wella goleuadau yn eich cartref rnib.org.uk
Llinell Gymorth: 0300 123 9999

Ychwanegu at Fwyd

Mae www.ychwaneguafwyd.co.uk yn hunanasesiad cyfrinachol hawdd ei ddefnyddio a gallwch ei wneud ar-lein neu ar y ffôn



Darllenwch ein cynghorion ar atal codymau yn saga.co.uk/falls



Gwasanaethau Codymau

Mae ymyriad cymunedol atal codymau ar gael fel rhan o'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff. Eich meddyg teulu yw'r person gorau i gysylltu ag ef/hi am hyn, ac i gael cyngor a gwybodaeth leol am wasanaethau, gan y gall amrywio o ardal i ardal

Gallwch ofyn am asesiad am ddim o beryglon cartref. Fel arfer therapyddion galwedigaethol sy'n eu cynnal, felly gwiriwch gyda'ch meddyg teulu a/neu adran Gwasanaethau Cymdeithasol eich awdurdod lleol.

Mewn rhai ardaloedd, mae'r Gwasanaeth Tân yn cynnig gwiriad diogelwch cartref Atal Codymau am ddim. Mae'n wasanaeth newydd ond mae'n ymestyn yn raddol. Felly ffoniwch rif dim-argyfwng eich gwasanaeth Tân lleol (dim 999) i holi os ydynt yn ei gynnig.



Am Ffisiotherapi

Mae ffisiotherapi'n gwella iechyd corfforol a meddwl, yn gwrrthdroi dibyniaeth ac yn gwella ansawdd bywyd ar gyfer pobl hŷn gydag ystod eang o gyflyrau. Yn ogystal ag atal afiechyd, mae'n helpu pobl i aros yn egniol a chael adferiad ar ôl syrthio, salwch ac anafiadau.

I ganfod sut y gall ffisiotherapi eich helpu, ewch i csp.org.uk/livelong neu ffonio'r CSP ar 020 7306 6666.

I gael mwy o wybodaeth o'r adnodd yma ewch i
www.csp.org.uk/publications/get-go-guide-staying-steady



A oedd y canllawiau yma'n ddefnyddiol?

Os felly, mae ystod eang o
newyddion a chyngor awdurdodol
ar iechyd ar gael ar wefan Saga
saga.co.uk/health

Hefyd mae mwy o erthyglau
ddefnyddiol ar iechyd ar gael yn
Saga Magazine bob mis. I gael
copi am ddim, ffoniwch 0800
056 1057* gan roi cod FG015.

*Dim ond ar gael i breswylwyr y
Deyrnas Unedig mae'r cynnig ar
gael ac mae'n amodol ar argaeledd.
Caiff eich cylchgrawn am ddim ei
bostio atoch o fewn dwy wythnos.
Mae'r llinellau ar agor rhwng dydd
Llun a dydd Gwener, 9am-5pm.



Ydych chi angen ychydig o help adref?

Cynlluniwyd Saga Healthcare
